

Gwanwyn/Haf 2016

national  
museum  
wales  
amgueddfa  
cymru



Noddir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Sponsored by  
**Welsh Government**

# Nawdd

Y cylchgrawn i Noddwyr Amgueddfa Cymru



## AELODAETH: Ebrill 2015–Mawrth 2016

### Mae yna 111 o aelodau ar hyn o bryd (155 noddwr).

Croeso cynnes i'r rheini ohonoch a ddaeth yn noddwyr eleni; rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau cyfarfod eich cyd-aelodau ac yn dod yn rhan o gymuned Noddwyr a Chyfeillion Amgueddfa Cymru. Mae llawer i'w wneud a'i weld yn 2016-17 ac edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r amgueddfeydd yn ystod y flwyddyn i ddod.

**MWYNHEWCH ... gostyngiadau manwerthu ac yn y caffi**  
Fel Noddwr mae gennych hawl i

ostyngiadau i'ch helpu i arbed arian ar ddiwrnodau allan i bob un o'n hamgueddfeydd. Mwynhewch ostyngiad o 10% yn ein caffis, ein siopau ac ar-lein. Dim ond dangos eich cerdyn aelodaeth wrth archebu neu ofyn am rywbeth sydd raid i hawlio'r disgownt.

### ADNEWYDDU – Diolch

Mae eich cefnogaeth, drwy danysgrifiadau blynyddol a mwy, yn parhau i sicrhau y bydd trysorau a chasgliadau cenedlaethol Cymru'n parhau i gael eu gwerthfawrogi, eu mwynhau, eu gwarchod a'u harddangos ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## CODI ARIAN

### Cylch Cyfrannu Sain Ffagan

Ers lansio'r Cylch Cyfrannu ym mis Hydref 2013, rydym wedi codi swm aruthrol o £88,850 (heb gynnwys cymorth rhodd) a £2,680 pellach mewn rhoddion o lai na £1,000.

Rydym wrth ein bodd i allu dweud wrthyh fod £58,380 o'r ffigur hwnnw yn rhodd gan Noddwyr Amgueddfa Cymru. Diolch enfawr i bawb y mae eu rhoddion wedi cyfrannu at adeiladu a gosod cyfarpar yn y gofod arloesol newydd Gweithdy, orielau newydd Dyma yw Cymru a Dyma yw Byw, y Ganolfan Ddysgu, Tai Crwn Oes Haearn Bryn Eryr a Llys Llywelyn.

**Llys Llywelyn:** roedd y project i ail-greu llys tywysog canoloesol yn Sain Ffagan yn ganolbwynt i ddau ddigwyddiad codi arian yn Llundain yn ystod 2015 hefyd – yn Gray's Inn a Gwesty St James Court, yn ogystal â

bod yn nodwedd allweddol o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth yn Ynys Môn a Sain Ffagan.

Roedd y digwyddiadau hyn yn help i fynd â stori'r project ailddatblygu y tu hwnt i Gymru a llwyddwyd i ddenu cefnogaeth ariannol yn ogystal â chefnogaeth lysgenhadol. Roeddem yn falch iawn o groesawu enwogion fel Eddie Butler, Gerald Davies, Catrin Finch, Siân Lloyd ac Owen Teale i'r noson yng Ngwesty St James Court, a siaradodd pob un ohonynt yn angerddol am Gymru a'u cefnogaeth i Sain Ffagan. Roeddem yn falch iawn hefyd fod ambell noddwr wedi gallu gwneud y daith i Lundain i'n cefnogi ac i helpu i groesawu pobl ar un o'r byrddau.

## Cronfeydd eraill:

Mae noddwyr wedi bod yn gyfrifol hefyd am roi arian tuag at gomisiynu model 3D o Dracoraptor Hanigani, ffosil deinosaurs unigryw Cymru, yn ogystal ag arian i greu taflen wybodaeth am y deinosaurs i ymwelwyr a grwpiau ysgol. Roedd rhoddion eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys rhoddion i Gwyddorau Naturiol ac Addysg. Fe wnaethoch godi bron i £2,000 yn y digwyddiad Nadolig i gefnogi'r Adran Archaeoleg a Niwmismateg ar gyfer arddangosfa newydd gyffrous *Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol*.



*Helmed Gorinthaidd  
750-650 CC*

*(llun y clawr)*

## Nodyn atgoffa i'r dyddiadur:

### Dydd Mercher 8 Mehefin .

– noson o haf yn Sain Ffagan.

Gobeithio y gallwch ymuno â ni ar gyfer yr ymweliad unigryw hwn â Llys Llywelyn yng nghwmni Dr Steve Burrow, Pennaeth Adeiladau Hanesyddol a Janet Wilding, Pennaeth yr Uned Adeiladau Hanesyddol. Cewch weld y cynnydd ar y safle adeiladu dros och eich hun gyda'r rhai sy'n gwneud y gwaith caib a rhaw yno; dychmygwch fyrddau wedi'u paratoi ar gyfer gwledd, gyda baneri ar waliau gwyn yn disgleirio yng ngolau canhwyllau a'r Tywysog a'i Foneddiges yn eistedd yn y neuadd uchaf, gyda thanllwyth o dân ar aelwyd agored yn ei chynhesu. Bydd popeth a gaiff ei arddangos yn cael ei gomisiynu gan grefftwyr yn seiliedig ar dystiolaeth o lenyddiaeth Cymru, darluniau cyfoes a thystiolaeth archaeolegol.

Bydd y digwyddiad yn lansio Apêl Noddwyr newydd ar gyfer Llys Llywelyn, yn debyg i'n hapêl hynod lwyddiannus ar gyfer dodrefnu Eglwys

Sant Teilo yn 2007. Rydych wedi bod yn hael iawn bob amser wrth gefnogi projectau yn Sain Ffagan ac yn awr rydym yn gofyn am eich help unwaith eto. Bydd rhywbeth i bawb ei noddi; yn wir, bydd croeso i roddion o bob math, o £25 am bowlen bren i arian comisiwn ar gyfer creu Gorsedd i'r Tywysog. Bydd ei chynllun yn seiliedig ar ddarlun a welwyd mewn copi o gyfreithiau Hywel Dda, a gynhyrchwyd yng Ngwynedd yn y drydedd ganrif ar ddeg yn ôl pob tebyg.

Gobeithio y byddwch am fod yn gymaint o ran o'r project arloesol hwn ag yr oeddech gydag Eglwys Sant Teilo bron i ddeng mlynedd yn ôl. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Llys am noson wych, fydd yn dechrau gyda derbyniad diodydd yn Institiwt y Gweithwyr Oakdale ac yn gorffen gyda swper ysgafn ar ôl ein hymweliad â Llys Llywelyn. **ARCHEBWCH NAWR** – bydd manylion llawn am y noson yn cael eu postio atoch cyn bo hir, ond gallwch archebu nawr drwy ffonio (029) 2057 3182 neu e-bostio [noddwyr@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:noddwyr@amgueddfacymru.ac.uk). Mae croeso cynnes i westeion.







## Chwaraewyr y People's Postcode Lottery yn cynyddu eu cefnogaeth i Amgueddfa Cymru gyda £25,000 ychwanegol

Pleser Amgueddfa Cymru yw cyhoeddi bod chwaraewyr y People's Postcode Lottery wedi dyfarnu £1.425 miliwn yn ychwanegol dros yr hirdymor i'w helusennau dewisedig. Mae Amgueddfa Cymru ymhlith 57 elusen fydd yn derbyn £25,000 yn ychwanegol gan chwaraewyr y loteri.

Derbyniodd Amgueddfa Cymru y newyddion am y nawdd ychwanegol yng Nghinio Elusennol y *People's Postcode Lottery 2016*. Cynhaliwyd y digwyddiad ar ddydd Iau 28 Ionawr yn yr Assembly Rooms yng Nghaeredin – dathliad o waith caled yr elusennau sy'n elwa o gefnogaeth y *People's Postcode Lottery*.

Yn bresennol ar y noson oedd Prif Weinidog yr Alban, Nicola Sturgeon, y cyflwynydd teledu Fiona Philips a'r Fonesig Ellen MacArthur. Hefyd yn perfformio ar y noson oedd y seren, Dionne Bromfield.

Mae'r nawdd yn sicrhau y gall yr Amgueddfa barhau i gynnig rhaglen ddynamig o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd i ymwelwyr o bob math.

Diolch i nawdd allweddol y People's Postcode Lottery, bydd 2016 yn flwyddyn fawr o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Mae'r flwyddyn yn agor gyda *Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol* sy'n cynnwys het, chwip a siaced Indiana Jones. Yn ddiweddarach bydd *Wriggle* yn arddangosfa gyffrous i'r teulu cyfan yn edrych ar bwysigrwydd mwydod yn yr ardd ac ar lan y môr, a chasgliad o ddarluniau Quentin Blake ar gyfer llyfrau Roald Dahl yn dathlu canmlwyddiant geni yr awdur poblogaidd o Gymru. Mae'r People's Postcode Lottery wedi bod yn hael eu cefnogaeth i Amgueddfa Cymru ers 2013, a'u nawdd wedi galluogi'r Amgueddfa i gynnig sgiliau, hyder a phrofiadau

newydd i ymwelwyr – yn enwedig plant a phobl ifanc mewn perygl o gael eu gwahardd o addysg ffurfiol – er mwyn hybu uchelgais a'u helpu i anelu at addysg bellach a chwilio am swyddi. Yn ogystal a chefnogi'r rhaglen arddangosfeydd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mae cyfran o nawdd y People's Postcode Lottery yn talu cyflog dau saer maen yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae nhw'n gweithio gydag adeiladwyr arbenigol yr Amgueddfa i ail-greu llys o oes y tywysogion yn seiliedig ar Lys Rhosyr, lleoliad archaeolegol ar Ynys Môn. Fel rhan o *Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol*, bydd Amgueddfa Cymru yn gweithio gydag elusen leol yn Nghaerdydd – 'Action Caerau Ely, Get-away and CAER Heritage' fydd yn helpu'r gymuned leol i guradu casyn arddangos i gyd-fynd â'r arddangosfa. Bydd hwn yn gyfle i'r cyfranogwyr ennill sgiliau a hyder, ac ymwneud â'u hamgueddfa leol mewn ffordd hollol newydd.

Dywedodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru: "Mae'r People's Postcode Trust wedi bod yn hael eu cefnogaeth i Amgueddfa Cymru ers 2013, yn rhoi'r cyfle i ni newid y modd y byddwn yn ymgysylltu â phobl Cymru drwy gyfrwng diwylliant.

"Hoffwn ddiolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery – yn enwedig y chwaraewyr yng Nghymru – am eu cefnogaeth barhaus. Bydd y £25,000 yn amhrisiadwy. Mae'r nawdd yn sicrhau ein bod yn medru parhau i gynnig rhaglen ddynamig o ddigwyddiadau, gweithgareddau ac arddangosfeydd megis Trysorau: Anturiaethau Archaeolegol mewn cyfnod lle mae cyrff cyhoeddus yn dioddef effeithiau cynni cenedlaethol.

"Gyda chefnogaeth y People's Postcode Lottery, gallwn barhau i ymgysylltu ag ymwelwyr a'r gymuned ehangach, gan roi cyfle iddynt ddysgu am eu diwylliant a'u treftadaeth, ac i gyfrannu ato."







## Recriwtio, Cofio, Adfer

Eleni, mae gan Amgueddfa Cymru – National Museum Wales raglen gyffrous o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ystyried y profiad o fyw trwy ryfel a'r effaith a gafodd ar fywydau pobl gyffredin ar draws y wlad, fel yr eglura Emma Routley.

### Arddangosfeydd

Bydd rhai o'n harddangosfeydd poblogaidd o'r llynedd yn teithio i amgueddfeydd a sefydliadau eraill Amgueddfa Cymru, gan roi cyfle i bobl mewn gwahanol rannau o Gymru eu gweld. Bydd arddangosfa 'Ymdrechion a Delfrydau: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf' yn cael ei dangos yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru o fis Ionawr i fis Mai. Mae'r arddangosfa yn arddangos delweddau o bropaganda, yn cynnwys printiau gan rai o artistiaid enwocaf y cyfnod. Bydd 'Gweithio dros Fuddugoliaeth - Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf' yn Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach.

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn edrych ar ymateb cymunedau'r chwareli llechi i'r ymgyrch recriwtio yn yr arddangosfa 'Dros Ryddid a'r Ymerodraeth' a gynhelir tan ddiwedd mis Mehefin ac a fydd wedyn yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Wlân Cymru.

'Rhyfel: Beth yw ei ddiben?' Yng ngeiriau'r gân, 'dim byd o gwbl'. Ond a yw hynny'n wir? Bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn tynnu sylw at y datblygiadau meddygol sydd wedi digwydd yn ystod rhyfeloedd dros y canrifoedd, gan ganolbwyntio ar y rhai a ddatgelwyd gan y Fyddin Rufeinig ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

'Forget me not: Cardiau post o'r Rhyfel

Byd Cyntaf': yn ystod y rhyfel daeth cardiau post a chardiau cyfarch yn ffordd allweddol o gyfathrebu rhwng milwyr oedd yn gwasanaethu a'u teuluoedd. O gardiau wedi'u brodio a'u masgynhyrchu a anfonwyd o Ffrainc i bortreadau ffotograffig o filwyr a darluniau sentimental o gariadon wedi'u gwahanu, mae'r arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cynnig cipolwg ar brofiadau beunyddiol dynion a merched cyffredin gafodd eu heffeithio gan ryfel.

Mae Gorffennaf yn nodi



canmlwyddiant Brwydr Mametz, un o'r brwydrau mwyaf arwyddocaol a mwyaf gwaedlyd a wynebwyd gan filwyr Cymreig. Mae 'Mae Rhyfel yn Uffern! ... Brwydr Mametz Wood mewn Celf' yn agor ym mis Ebrill yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Seren yr arddangosfa fydd llun Christopher Williams, 'Y Cymry ym Mametz Wood', a gomisiynwyd gan Lloyd George i goffáu'r frwydr.

Cynhelir cyfres o sgysiau oriel i gyd-fynd â'r arddangosfa.

Fel rhan o'r rhaglen gyhoeddus ar gyfer yr arddangosfa mae'r Amgueddfa yn gweithio mewn partneriaeth gydag Opera Genedlaethol Cymru, Prifysgol Caerdydd a Lleisiau dros Ryfel a Heddwch: Y Ganolfan Ymgysylltu â'r Rhyfel Byd Cyntaf ar 'Dewch i ganu yn yr Amgueddfa - caneuon o'r ffosydd' a gynhelir ym mhrif neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar Fehefin 3. Bydd y digwyddiad yn dod â grwpiau o bob rhan o Gymru, yn Llundain a Portsmouth,



cantorion opera o 'In Parenthesis' a chorau lleol at ei gilydd a byddant i gyd yn perfformio detholiad o ganeuon poblogaidd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cynnwys 'Sosban Fach'. Caiff y digwyddiad ei ffrydio'n fyw ar gyfryngau cymdeithasol gan y fforwm ieuenctid o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

### Cyhoeddiad Castell Sain Ffagan

Ar 22 Mawrth 1916 agorodd y Groes Goch ysbyty ategol mewn neuadd wleda yng Nghastell Sain Ffagan. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y Castell yn gartref i larll ac larlles Plymouth a fu'n weithgar yn ymdrech y rhyfel. I nodi canrif ers agor yr ysbyty, bydd y llyfr hwn yn amlinellu ei hanes ac yn datgelu rhai o straeon personol y rhai a oedd yn gweithio, yn cryfhau ac yn byw yng Nghastell Sain Ffagan yn ystod y Rhyfel. Bwriedir cyhoeddi'r llyfr ar gyfer Mawrth 2016.

### Sgyrsiau, Teithiau a Gweithgareddau Teuluol

Mae gan Amgueddfa Cymru raglen ymgysylltu helaeth a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai gwneud printiau, sgyrsiau gan gynnwys 'Ein Hamgueddfa yn ystod y Rhyfel Mawr', sy'n canolbwyntio ar rai o straeon ingol y staff yn ystod y cyfnod, gweithgareddau teuluol, gan edrych ar fwyd a chyfathrebu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a theithiau tywys o gwmpas tiroedd Castell Sain Ffagan, gan daflu goleuni ar hanes cudd y stad yn ystod y cyfnod hwnnw. .

### Treftadaeth Ddigidol

Yn 2016 bydd gwaith yn parhau ar y gronfa ddata ddigidol ar-lein o wrthrychau yn perthyn i'r Rhyfel Byd Cyntaf o gasgliadau'r Amgueddfa ynghyd â deunydd o'r adrannau Celf ac Archaeoleg <http://www.museumwales.ac.uk/first-world-war/>

## Ailddarganfod casgliadau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Jonathan Wheeler, Curadur Hanes Modern, Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan

Ers diwedd 2012, gyda chanmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf mewn golwg, mae curaduron yn Sain Ffagan wedi cymryd rhan mewn project i ddigido gwrthrychau sy'n berthnasol i'r rhyfel. Mae'r canlyniadau ar gronfa ddata'r Rhyfel Byd Cyntaf, a gallwch eu gweld ar ein gwefan. Bellach, yn 2016, mae'r project yn dal i fynd rhagddo. Un agwedd sydd wedi synnu pawb sy'n gysylltiedig ag ef yw bod gwrthrychau sydd â straeon i'w hadrodd am y rhyfel yn dal i gael eu hailddarganfod.

Cyn i ni ddechrau edrych am y gwrthrychau hyn yn benodol, doedd eu potensial i ddatgelu straeon am y rhyfel ddim wedi'i wireddu bob amser, a doedd y cysylltiadau rhwng gwahanol wrthrychau ddim wedi'u gwneud bob amser chwaith. Casglwyd llawer iawn o wrthrychau yn y gorffennol – rhai yn y blynyddoedd yn syth ar ôl y rhyfel – sy'n golygu bod y wybodaeth a gofnodwyd ar y pryd yn gyfyngedig yn aml.

Weithiau, fodd bynnag, mae tipyn o lwc wedi helpu. Fel rhan o'r project Creu Hanes, mae miloedd o eitemau o'r casgliad wedi symud rhwng storffeydd a labordai cadwraeth. Wrth gynnal archwiliad yn ddiweddar o adran oedd yn cynnwys lifrai milwrol a gwisgoedd sifil, fe ddois ar draws casgliad o fathodynau a botymau sy'n berthnasol i'r cyfnod ac yn golygu bod maint ein casgliadau Rhyfel Byd Cyntaf dipyn mwy nag roedden ni'n sylweddoli cyn hynny.



Bathodyn gyda'r arysgrif 'FOR KING AND EMPIRE SERVICES RENDERED GRI' a ffotograff o Vincent Haydon Handley.



Bathodyn Cyffinwyr  
De Cymru.



Bathodyn ysgwydd a botwm o lifrai'r Corporal Oscar Foote o Warchodlu'r Grenadwyr yn ystod yr enciliad o Mons, 1914.

Fel arteffactau rhyfel, mae gan y gwrthrychau hyn gysylltiadau ingol. Daethpwyd o hyd i un bathodyn llabed yn ddiweddar gyda ffotograff bychan o filwr a laddwyd ym 1915. Canfuwyd fod bathodyn ysgwydd a botwm y Grenadier Guards yn perthyn i filwr a oedd yn rhan o'r encilio o Mons ym 1914, ac mae gennym ffotograff ohono yn ein casgliadau hefyd. Rydym wedi darganfod gwrthrychau hefyd o ardaloedd oedd yn rhan o'r rhyfel nad oeddem yn meddwl bod gennym gynrychiolaeth ohonynt yn y casgliadau cyn hynny, fel bathodyn cap Cyffinwyr De Cymru yn coffáu ymgrych yr Aifft.

Yr hyn sydd wedi bod yn gyffrous am weithio ar y project hwn yw darganfod casgliadau heb eu categorioedd cyn hyn am eu cysylltiad â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Rydym wedi dod o hyd i wrthrychau mewn amrywiaeth o feysydd: ymhlith lluniau a ffotograffau, llythyrau a thystysgrifau, offer meddygol, tecstilau, bathodynau a medalau. Yn ogystal â bod ar gael i'w gweld ar ein cronfa ddata o eitemau o'r Rhyfel Byd Cyntaf, bydd rhai o'r straeon rydym wedi'u darganfod yn cael eu hadrodd yn yr arddangosiadau sydd ar y gweill ar gyfer yr orielau newydd yn Sain Ffagan – Dyma yw Cymru a Dyma yw Byw – enghraifft berffaith o sicrhau y gall cyfoeth llawn ein casgliadau gael ei rannu'n barhaol.

Dyfarnodd Cronfa Grant Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog £250,000 i Amgueddfa Cymru ym mis Ebrill 2014 ar gyfer project pum mlynedd yn Sain Ffagan i ail-arddangos casgliadau'r Lluoedd Arfog ac ar gyfer gwaith allgymorth cymunedol. Dyma'r grant mwyaf erioed i'r cyfamod ei ddyfarnu yng Nghymru. Rhoddwyd sylw i broiect Sain Ffagan yn ddiweddar ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog fel project allweddol yng Nghymru, a dywedodd y Brigadydd Martyn Gamble pa mor bwysig ydyw o ran helpu i wneud y fyddin yn fwy perthnasol ac integredig yng Nghymru heddiw. Dywedodd y Brigadydd Gamble, Cadlywydd Brigâd Troedfilwyr 160 a

Phencadlys Cymru a phennaeth y Fyddin yng Nghymru: "Mae projectau fel hyn o werth mawr o ran sicrhau y gall cenedlaethau o bob oed glywed straeon ein cyndadau ac mae'n braf iawn gweld sut mae'r Gronfa Cyfamod wedi helpu i ddatblygu'r project arbennig hwn.

"Sefydlwyd y cynllun Grant Cyfamod Cymunedol ym mis Mehefin 2013 er mwyn ariannu projectau lleol sy'n cryfhau'r cysylltiadau, neu'r gyd-ddealltwriaeth, rhwng aelodau Cymuned y Lluoedd Arfog a'r gymuned ehangach lle maent yn byw. "Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ddigwyddiad o arwyddocâd anfesuradwy ac mewn cymaint o ffyrdd dyna siapiodd ddegawdau cynnar yr ugeinfed ganrif. Ni ddylem fyth anghofio'r aberth a wnaed ac mae ein gwasanaethau coffa blynyddol yn gyfle i fyfyrwyr ar yr aberth honno. Drwy ddigido gwrthrychau sy'n berthnasol i'r gwrthdaro mae modd i bobl gael dealltwriaeth ddyfnach o'r myrdd o straeon sydd wedi esblygu dros amser. "Ethos canolog y Cynllun Cyfamod yw dwyn cymunedau ynghyd, i integreiddio a gwerthfawrogi, yn ogystal â deall, y Lluoedd Arfog.

"Mae'r gwaith mae Sain Ffagan wedi'i wneud, ac yn parhau i'w wneud, yn hynod ddiddorol a threiddgar ac yn rhoi cyfle i ni edrych drwy ffenestri modern llachar a gweld y gorffennol." Meddai Elen Phillips, Prif Guradur Hanes Cyfoes a Chymunedol: "Mae gweithio gyda chymuned y Lluoedd Arfog wedi bod yn sbardun i roi bywyd newydd i wrthrychau sydd wedi bod yn y casgliad ers cenedlaethau.

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi dod â straeon ac ystyron newydd i'r amlwg, gan wneud y casgliadau'n fwy perthnasol a hygyrch. Rydym yn edrych ymlaen at ddatblygu ein perthynas gyda chymuned y Lluoedd Arfog ymhellach dros y tair blynedd nesaf."





## Rhyfel: Er Gwaeth, Er Gwell?

Victoria le Poidevin, Swyddog Digwyddiadau a Marchnata, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Gyda'r dathliadau sydd ar y gweill i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, mae oferedd ymladd yn thema gyffredin. Penderfynodd y grŵp yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru sy'n trefnu rhaglen yr arddangosfa ar gyfer y cyfnod o 2014 i 2018 geisio edrych ar y mater o safbwynt gwahanol. Mae'r gân yn gofyn 'War, what is it good for? Absolutely nothing' – ond a yw hynny'n wir? Efallai bod rhyfel yn greulon ac ofer, ond a oes modd i unrhyw dda ddeillio ohono?



Penderfynodd tîm yr arddangosfa ganolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd o ryfel, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y cyfnod Rhufeinig a'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Fel wnaethant ddewis canolbwyntio ar ddatblygiadau meddygol a ddaeth yn sgil rhyfel, a ffrwyth rhai misoedd o waith ymchwil oedd digon o ddeunydd cyffrous a diddorol i greu arddangosfa.

Mae yna sawl her unigryw'n gysylltiedig â chreu arddangosfa yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, yn bennaf, maint yr ardal arddangos. 'Cyfyng' yw un o'r geiriau y gellid eu defnyddio i'w disgrifio! Fel gyda phob arddangosfa, yr her yw bod yna fwy o wybodaeth i'w rhannu ag ymwelwyr na sydd o le i'w harddangos. Mae'r byrddau arddangos yn cynnwys gwybodaeth eithaf sylfaenol; mae hyn oherwydd bod adborth ymwelwyr yn dangos dro ar ôl tro ei bod yn well gan yr ymwelydd cyffredin wybodaeth syml a chryno. Ond mae yna bobl hefyd a fyddai'n hoffi mwy o fanylion am y pwnc a gwrthrychau. Mewn arddangosfeydd blaenorol, mae'r timau wedi cynhyrchu llyfrau troi neu ddulliau traddodiadol tebyg i gyflwyno gwahanol haenau o wybodaeth.

Arweinydd y project Rhyfel: Er Gwaeth, Er Gwell? oedd Danielle Cowell, Rheolwr Addysg yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru a hyrwyddwr digidol Amgueddfa Cymru. Ei phrofiad digidol a arweiniodd at y syniad o greu eLyfr i gyd-fynd â'r arddangosfa. Er bod eLyfrau wedi cael eu defnyddio o'r blaen (er enghraifft crëwyd un yn ddiweddar yn Sain Ffagan fel rhan o broiect y Rhyfel Byd Cyntaf) dyma'r tro cyntaf iddynt gael eu defnyddio mewn ffordd mor ganolog i arddangosfa.

Mae'r syniad yn un syml, sef creu llinell amser ar y byrddau arddangos sy'n dangos cynnydd meddygol o gyfnod y Groegiaid hyd at gyfnod rhyfeloedd modern. Mae copi o'r llinell amser ar dudalen gyntaf yr eLyfr, ond gall ymwelwyr gael gwybodaeth ychwanegol am y datblygiadau drwy glicio ar y delweddau ar y llinell amser. Mae yna ddolenni hefyd i ymwelwyr gyrchu gwybodaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Felly, er enghraifft, mae'r wybodaeth ar y llinell amser ar ryfela yng nghyfnod y Groegiaid yn dweud wrth ymwelwyr am efeiliau a ddyfeisiwyd i dynnu pennau saethau tua 2500 CC. Trwy'r eLyfr gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y gefeiliau yn ogystal â phen Hippocrates yn siarad, gan ddefnyddio'r ap 'Morpho', sy'n esbonio mai rhyfel yw'r unig ffordd i ddysgu am fed-dygaeth.

Yn ogystal â'r byrddau arddangos a'r eLyfr, ategir y pwnc hefyd gan gas arddangos sy'n cynnwys copïau o lawer o eitemau meddygol i ychwanegu elfen ffisegol at yr arddangosfa.

Y gobaith yw y gallwn ni, yn ein tro, ddysgu llawer o'r dulliau newydd hyn o ddefnyddio'n mannau arddangos.

Mae'r arddangosfa i'w gweld tan 16 Ionawr 2017 yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion.

## Newyddion yr Amgueddfa

### Ŵyna yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Mae'r rhyngrwyd yn dwlu ar anifeiliaid bach, ac ar Ddydd Gŵyl Dewi daeth y #sgrinwyna yn ei hôl – ffrwd fyw 24 awr yn dangos hynt a helynt y sied ŵyna yn Sain Ffagan. Lansiwyd y project yn 2015 ac aeth y neges ar dân dros y cyfryngau cymdeithasol. Ond dan yr wynebau ciwt mae neges addysgiadol, fel yr esboniodd Sara Huws, Swyddog Cynnwys Digidol Amgueddfa Cymru: "Roedd y #sgrinwyna yn gyfle i ni rannu ein harbenigedd a'n sgiliau traddodiadol â phobl o bedwar ban byd, drwy gyflwyno'r tymor ŵyna ar y we mewn cyfres o erthyglau, digwyddiadau a ffrydiau fideo byw. Drwy hyn dyma ni'n treblu'r amser y mae defnyddwyr yn ei dreulio ar y wefan, ar gyfartaledd, a chynyddu



cyfraniad ymwelwyr at y drafodaeth ar gynnyrch Cymreig, adnoddau naturiol, lles anifeiliaid ac amaeth."

### Portread Catrina Hooghsaet (1607-1685)

Portread Rembrandt van Rijn o Catrina Hooghsaet (1607-1685) i'w weld yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd am dair mlynedd.

Portread o'r 17eg ganrif ydyw o fenyw gyfoethog, annibynnol, 50 oed o Amsterdam. Fe'i cedwid yng Nghastell Penrhyn, gogledd Cymru, tan y llynedd pan brynodd casglwr preifat y gwaith drwy arwerthwyr Sotheby's.

Mae bellach wedi cael ei gynnig ar fenthyciad hirdymor i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd i'w arddangos yn orielau celf hanesyddol yr amgueddfa yng nghanol y brifddinas. Bydd yr Amgueddfa hefyd yn elwa o rodd o £10k gan y cyn-berchennog i ariannu rhaglen addysg.

Paentiwyd y llun gan un o fawrion y byd celf. Yn wir, mae'n un o bortreadau gorau Rembrandt a gyda'r esiampyl gorau o'i waith ym Mhrydain.



Gallai Rembrandt gyfleu gwir gymeriad ac emosiwn dynol yn ei waith. Cyn hyn, diben portread oedd cyfleu statws nid personoliaeth. Roedd gonestrwydd i'w baentio oedd yn dangos unigolion mewn modd sensitif a threiddgar.

Roedd y fodel yn aelod o gymuned grefyddol Mennonaidd Amsterdam, ond drwy'r parot ar ei hysgwydd a'i dillad cain gwelwn arlliw o ddaliadau anarferol. Roedd hi'n fenyw o flaen ei

hamser, ac er yn briod â gweinidog Mennonaidd roedd hi'n byw ar wahân, sy'n awgrymu bod ganddi gymeriad cryf a rhyddid ariannol.

Dyweddodd David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

"Mae hwn yn waith arbennig, sy'n golygu llawer i dreftadaeth Cymru ac yn bwysig iawn iddo. Cyrhaeddodd y paentiad Gymru yn y 1860au ac mae'n esiampl o'r cyfoeth ariannol a

chenedlaethol a ddaeth yn sgil y chwyldro diwydiannol yng Nghymru.

"Mae'n bleser cael arddangos y gwaith yn gyhoeddus, fel y gall gyfrannu at ein dealltwriaeth o'n gorffennol a chael ei fwynhau gan gynulleidfa'r presennol."

Dyweddodd y perchennog eu bod yn hapus iawn i rannu eu mwynhad o'r paentiad gwyh hwn â'r cyhoedd drwy ei fenthgy i Amgueddfa Cymru.



## Y sgarmes fwyaf erioed ar dir Cymru

Llecyn tawel, prydferth yw pentref bach Sain Ffagan heddiw gyda'i amgueddfa boblogaidd, ei dai to gwellt a'i dafarn gartrefol. Anodd credu taw dyma leoliad y sgarmes fwyaf erioed ar dir Cymru. Ym mis Mai 1648, ymladdwyd brwydr waedlyd yma rhwng 11,000 o ddynion. Chwalwyd byddin y Brenhinwyr gan y Seneddwyd a dywedir i afon Elai lifo'n goch gan waed y 700 o wyr Morganwg a laddwyd ar faes y gad.



Yn 2016 gall ymwelwyr â Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru brofi eto fflach cleddyfau, bloedd byddinoedd a gwres y gynnu. Ymunwch â ni ar 28 a 29 Mai ar gyfer 'Y Frwydr' pan fyddwn yn ail-greu'r hanes gyda chymorth Cymdeithas Rhyfel Cartref Lloegr.

Bydd eich tocyn yn rhoi mynediad i ddigwyddiad hanes byw mawr:

- Dysgwch am fywyd milwr yn y 17eg ganrif.
- Siaradwch â'r pentrefwyr a chlywed eu gobeithion a'u hofnau
- Profwch nerfau a chyffro'r milwyr cyn y frwydr.
- Gwelwch arfau replica – cannon, mysgedau powdwr gwn wedi'u llwytho o'r blaen, cleddyfau a bilwgau
- Gwrandewch ar y cadfridogion yn gorchymyn y gwyr i baratoi
- Rhyfeddwch ar fedr y marchogion yn herio'r gelyn Gwylwch frwydr nodweddiadol rhwng dwy fyddin o'r cyfnod

28 a 29 Mai 2016, 18.00 - 21.00  
Oedolion £10, Plant £5 (i fyny at 16)

Archebwch drwy:  
[ticketlineuk.com/event/st-fagans](http://ticketlineuk.com/event/st-fagans)  
neu ffoniwch 029 2023 0130





## Seremoni Gosod y Garreg

Ar 4 Chwefror, daeth staff, rhoddwyr ac ymwelwyr ynghyd yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan i ddathlu gosod y garreg gopa ar ben y Prif Adeilad. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddathlu'r cynnydd a wnaed hyd yma wrth i Sain Ffagan baratoi ar gyfer y miloedd o ymwelwyr ychwanegol y bydd yr Amgueddfa yn gallu eu croesawu ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu.

Ar ôl tynnu lluniau a seremoni i godi'r faner ar ben y Prif Adeilad cafwyd anerchiadau gan y Dirprwy Weinidog Ken Skates, y Cyfarwyddwr Cyffredinol David Anderson a Ted Sangster ar ran prif ariannwr y project, Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Yna roedd cyfle i ymwelwyr gwrdd â thîm y project a chael eu tywys ar daith o gwmpas y safle fel rhan o gyfres o ddyddiau Twls ar y Bar.

## Yr Amgueddfa Wlân yn ennill Gwobr Twristiaeth

Llongyfarchiadau mawr iawn i Amgueddfa Wlân Cymru a enillodd y Wobr Arian am y **Diwrnod Allan Gorau** yng Ngwobrau Twristiaeth Sir Gâr.

Hefyd, derbyniodd yr Amgueddfa wobr newydd sbon gan Croeso Cymru, sef gwobr **Adrodd Stori Orau**, i gydnabod

rhagoriaeth wrth gyfleu stori hudol y diwydiant gwlân yng Nghymru.

Caiff y wobr **Adrodd Stori Orau** ei rhoi i atyniadau sy'n gwneud ymdrech eithriadol i greu profiad pleserus a chofiadwy ar gyfer eu hymwelwyr.

## Her Coeden Nadolig yn Amgueddfa Lechi Cymru!



Rhoddodd chwarelwyr Amgueddfa Lechi Cymru her Nadoligaidd i'w hunain y llynedd – adeiladu coeden Nadolig o lechi! Roedd ein hamgueddfa yn y gogledd am wneud rhywbeth ychydig bach yn wahanol a daeth yn gyfle perffaith i arddangos doniau eithriadol ein chwarelwyr.

Cymerodd y campwaith gorffenedig dair wythnos i'w gwblhau, roedd ynddo ryw 150 o haenau a 2,360 o ddarnau o lechi. Defnyddiwyd tri math o lechi (o'r Penrhyn, Cwt y Bugail Ffestiniog a Blaenau). Mae'r goeden drawiadol yn pwyso 1.2 tonnall fetrig!

Roedd y goeden mor boblogaidd nes i'r Amgueddfa benderfynu ei chadw o flaen y fynedfa gydol y flwyddyn. Mae'r thema Nadolig wedi'i thro'i'n atyniad tymhorol erbyn hyn, sydd wedi cynnwys Dydd San Ffolant a Dydd Gŵyl Dewi!



## Gwirfoddoli - Ehangu amrywiaeth economaidd-gymdeithasol gwirfoddolwyr

Roedd Amgueddfa Cymru'n un o saith amgueddfa ac oriel a gymerodd ran yn y fenter Ein Hamgueddfa a ariannwyd gan Sefydliad Paul Hamlyn rhwng 2012 a 2015. Y nod oedd hwyluso proses o ddatblygu a newid sefydliadol gydag amgueddfeydd oedd yn ymroddedig i bartneriaeth weithredol gyda'u cymunedau, gyda'r uchelgais o effeithio ar y sector amgueddfeydd yn fwy eang.

Roedd gwaith Amgueddfa Cymru yn canolbwyntio ar wirfoddoli yn Sain Ffagan. Dim ond un ar ddeg o wirfoddolwyr oedd gan Sain Ffagan yn 2012, pob un ohonynt yn gwirfoddoli yn yr un adran. "Ar y cyfan, roedd y gwirfoddolwyr hyn yn dod o'r un cefndir economaidd-gymdeithasol: wedi cael addysg dda, wedi ymddeol ac yn fenywod," meddai Stephanie Burge, Cydlynnydd Ein Hamgueddfa. "Roedd ein proses recriwtio ynddi'i hun yn rhwystr: ychydig iawn o hysbysebu, oedd yn ymddangos ar ein gwefan yn unig, ffurflenni cais rhy gymhleth a threfn gyfweld hirwyntog a biwrocraidd oedd yn annymunol, er nad dyna'r bwriad.

"Yn ystod misoedd prysuraf yr haf mae gennym fwy na 150 o wirfoddolwyr erbyn hyn yng ngwahanol adranau Sain Ffagan," meddai Steph. "Trwy weithio mewn partneriaeth fe wnaethom fanteisio ar rwydweithiau cymunedol nad oeddem wedi'u defnyddio o'r blaen, gan ein galluogi i gyrraedd llawer mwy o bobl a sicrhau mwy o amrywiaeth ymhlith ein gwirfoddolwyr.

Mae'r model hwn wedi'i drosglwyddo hefyd i'r ffordd y mae'r Amgueddfa yn cynorthwyo staff i oruchwylio gwirfoddolwyr. Mae Partneriaid Cymunedol wedi helpu i gyflwyno hyfforddiant sy'n rhoi'r sgiliau, y wybodaeth a'r

hyder i staff i weithio gyda phobl o gefndiroedd amrywiol ac sydd ag anghenion gwahanol; mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o anabledd a sut i gefnogi pobl sy'n gwella ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau.

"Canlyniad y newidiadau hyn yw bod Amgueddfa Cymru wedi llwyddo i ennill statws Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, sef safon ansawdd y DU ar gyfer arfer da wrth reoli gwirfoddolwyr," meddai. "Pan wnaethon ni ddewis canolbwyntio ar weddnewid yr hyn oedd gennym i'w gynnig i wirfoddolwyr, gwnaethom gydnabod nad oedd y wybodaeth na'r profiad angenrheidiol gennym i wneud hynny ar ein pen ein hunain. Roeddem yn ystyried hynny'n rhywbeth cadarnhaol. Roeddem yn awyddus i groesawu lleisiau allanol, felly fe wnaethom greu Tîm Ymgysylltu oedd yn cynnwys deg Partner Cymunedol."

Roedd y partneriaid yn cynnwys elusennau, y cyhoedd a sefydliadau trydydd sector a ddewiswyd oherwydd eu gwybodaeth arbenigol, eu cylch gwaith strategol a'u cymuned, megis NewLink Cymru, elusen sy'n cefnogi pobl sy'n gwella ar ôl bod yn camddefnyddio sylweddau.

"Fe wnaethom sylweddoli hefyd y byddem yn elwa o gyflogi staff â sgiliau gwahanol. Buom yn gweithio ar y cyd â Phartneriaid Cymunedol i recriwtio cydlynnydd newydd ar gyfer rhaglen Ein Hamgueddfa."

Hysbysebwyd rôl y cydlynnydd drwy'r Partneriaid Cymunedol, gan ei gwneud yn weladwy i wahanol grwpiau o bobl, gan greu mwy o amrywiaeth o ran ymgeisywyr.

"Mabwysiadwyd dull egalitaraidd gennym o greu'r rhestr fer a chyfweld, gyda'r Partneriaid Cymunedol yn rhan o'r broses drwyddi draw," meddai Steph. "Ychwanegwyd taith anffurfiol o'r safle at y broses gyfweld, a roddodd fwy o gyfle i ymgeiswyr werthu eu hunain, a rhoi'r cyfle i ni weld ymgeiswyr yn ymgysylltu â gwahanol bobl mewn gwahanol amgylcheddau."



Penodwyd ymgeisydd â chefnidir yn gweithio i ganolfan wirfoddoli. Roedd gan yr unigolyn brofiad sylweddol o weithio gyda chymunedau amrywiol a'r sgiliau sydd eu hangen i helpu Amgueddfa Cymru i sicrhau bod yr hyn y mae'n ei gynnig i wirfoddolwyr yn cyd-fynd â modelau arferion gorau'r trydydd sector.

Mae dros 300 o wirfoddolwyr ar hyd a lled Amgueddfa Cymru erbyn hyn, ac mae'r sgiliau maent yn eu dysgu yn wahanol iawn, yn dibynnu ar eu rôl fel gwirfoddolwyr. Er enghraifft, bydd gwirfoddolwr ar y fferm yn Sain Ffagan yn dysgu sgiliau amaethyddol a hwsmonaeth anifeiliaid gyda gwirfoddolwyr gyda'r Adran

Cadwraeth yn y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn dysgu am ofalu am y casgliadau ac archifo, a gwirfoddolwyr yn yr Adran Addysg yn Amgueddfa Llong Rufeinig Cymru yn cael help i wella eu sgiliau cynllunio a hwyluso. "Mae pob un o'n rolau gwirfoddoli yn

rhoi cyfle i gyfranogwyr wella eu sgiliau meddalach megis cyfathrebu, gweithio mewn tîm a phrydlondeb, sy'n gymorth ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol. Mae llawer o'r rolau gwirfoddoli'n cynnig cyfle hefyd i wirfoddolwyr ymarfer eu sgiliau Cymraeg."

Mae nifer o wirfoddolwyr wedi symud yn eu blaenau i wneud gwaith cyflogedig yn Amgueddfa Cymru neu gyda sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eraill. "Mae llawer o'n gwirfoddolwyr yn mynd ymlaen i addysg bellach hefyd mewn meysydd megis hanes a'r celfyddydau," meddai Burge. Mae Amgueddfa Cymru wedi creu rhaglenni lleoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr a graddedigion hefyd. Y cam nesaf yw parhau i weithio gyda Phartneriaid Cymunedol i greu llwybr â chymorth i bobl ifanc, gan gynnwys rhai a allai fod heb ymweld ag amgueddfa erioed o'r blaen, er mwyn iddynt ymgysylltu â threftadaeth drwy wirfoddoli neu leoliad gwaith.

"Rydym yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl ifanc, fel bod yr hyn rydym yn mynd ati i'w drefnu yn diwallu eu hanghenion a'u dyheadau; er enghraifft drwy weithio gyda Llamau, elusen sy'n helpu pobl ifanc ddigartref ac agored i niwed yng Nghymru," meddai Burge. "Mae pobl iau yn gynulleidfa heb gynrychiolaeth ddigonol yn y sector treftadaeth, felly mae'n bwysig defnyddio capasiti diwylliannol yr amgueddfa i ddatblygu cyfleoedd ystyrlon, sydd nid yn unig yn eu cysylltu â threftadaeth ond hefyd yn adeiladu sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd."

Daw'r erthygl hon o gyfweiliad gyda Stephanie Burge a gyhoeddwyd yn rhifyn mis Chwefror 2016 o Museums & Heritage Advisor..



## Newyddion Ymchwil, Cadwraeth a Churadurol

### Mae dau ben yn well nag un: Gwarchod sampler brodwaith goffa.

Lisa Childs, Uwch Swyddog Cadwraeth, Archifau a Kim Thusing, Uwch Swyddog Cadwraeth, Tecstilau

Mae'r erthygl hon yn disgrifio gwaith cadwraeth ar un o'r eitemau a ddewiswyd o gasgliadau Sain Ffagan i'w harddangos yn Gweithdy, yr adeilad newydd sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd fel rhan o ailddatblygiad Sain Ffagan.

Mae'n sampler brodwaith coffa, dyddiedig 1885, a wnaed gyda gwaith pwyth croes gan ddefnyddio edau sidan. Nid tecstil yw'r grwnd ond cerdyn â grid o dyllau ynddo, y mae'r brodwaith wedi'i weithio drwyddynt.

Gan fod y sampler wedi'i wneud o decstilau a phapur, mae wedi rhoi cyfle i ni fynd i'r afael â'r gwaith cadwraeth fel project traws ddisgyblaethol, gan fanteisio ar ein harbenigedd ym meysydd cadwraeth tecstilau a phapur fel ei gilydd.

Roedd y sampler wedi cael ei fowntio'n

wael yn y gorffennol, drwy gael ei ludo'n uniongyrchol ar gerdyn anhyblyg. Mae hyn wedi bod yn rhannol gyfrifol am achosi rhwygiadau yn y cerdyn grwnd gan fod y glud anwastad a roddwyd arno wedi cyfyngu ar ei allu i ymestyn a chrebachu'n naturiol yn sgil newidiadau mewn lefelau lleithder amgylcheddol.

Ein nod oedd tynnu'r sampler oddi ar yr hen gerdyn anhyblyg a'i gynnal yn fwy llwyddiannus drwy ei fowntio ar fwrdd â phadin, yn barod i'w fframio a'i arddangos yn yr oriel newydd. Rhoddwyd y gorau'n go gyflym i'r ymdrechion cyntaf i dynnu'r sampler oddi ar yr hen gerdyn trwy feddalu'r glud gyda thoddyddion, gan eu bod yn achosi i'r cerdyn naill ai newid lliw neu ymddatod. Yn hytrach, trodd y Swyddog Cadwraeth Papur y gwrthrych wyneb i waered a thynnu'r hen gerdyn anhyblyg fesul haen gan ddefnyddio cyllell llawfeddyg, proses a gymerodd oriau maith, ond ffordd tipyn mwy diogel o gyflawni'r dasg.

Unwaith y tynnwyd y cerdyn anhyblyg daeth yn amlwg fod y gwrthrych yn dameidiog iawn, oedd yn golygu bod angen ei drwsio drwy ddefnyddio papur cadwraeth Japaneaidd a'i roi ar ei gefn. Yna cafodd y papur atgyweirio ei docio o gwmpas pob twll yn y cerdyn fel na ellid ei weld wrth edrych arno o'r tu blaen.

Yn olaf, ar ôl cwblhau'r gwaith o atgyweirio'r cerdyn, cafodd y gwrthrych ei fowntio ar fwrdd â phadin wedi'i orchuddio â deunydd wedi'i lifo'r un lliw â'r cerdyn wedi'i dyllu. Roedd y Swyddog Cadwraeth Tecstilau eisiau osgoi gosod unrhyw bwythau ar y sampler ei hun er mwyn osgoi creu tyllau nodwydd yn y cerdyn, felly yn lle hynny mae'n cael ei ddal yn ei le bellach gan droshaen lled-dryloyw o rwyd Nylon wedi'i lifo, sy'n cael ei ymestyn dros y sampler a'i bwytho o gwmpas ei ymyl.



## Ffenestri – Ffermdy Abernodwydd

Emyr Davies, Uwch Swyddog  
Cadwraeth, Dodrefn



Dyma'r gymysgedd yn cael ei thoddi cyn ei rhoi ar y deunydd wedi'i ymestyn ar y ffenestri.



Ffenestr yn Abernodwydd oedd yn agored i'r elfennau cyn gosod y fframiau â lliain wedi'i ymestyn a'i drin ag olew.



Dyma'r un ffenestr ar ôl gosod y lliain wedi'i drin yn ei le.

Mae problemau amgylcheddol fel colli gwres, gwynt yn treiddio a rheoli lleithder yn adeiladau hanesyddol Sain Ffagan wedi cael cryn dipyn o sylw'n ddiweddar. Fel cadwraethwyr roeddem am ddod o hyd i ffordd o reoli'r amgylchedd mewn rhai strwythurau, lle nad oedd gan yr adeiladau ffenestri gwydr am resymau hanesyddol.

Cyn i wydr plât a gwydr coron fod ar gael, yn fforddiadwy neu'n ymarferol, roedd pobl yn defnyddio deunyddiau naturiol fel corn, memrwn, felwm neu liain i gadw'r tywydd garw allan, ond sicrhau ar yr un pryd bod cymaint o olau â phosibl yn dod drwy'r deunydd. Byddai hyn yn cael ei gyflawni'n ddieithriad drwy ddefnyddio cymysgedd o olew a resinau mewn hydoddydd. Byddai'r gymysgedd yn trwytho'r deunydd er mwyn iddo wrthsefyll y tywydd a helpu'r golau i dreiddio drwyddo.

Arbrofwyd gan ddefnyddio rysetiau traddodiadol ar gyfer y gorchuddion ffenestri. Roedd tystiolaeth o'r cyfnod ynglŷn â defnyddio rysetiau hyn yn sôn am broblemau o ran trosglwyddo golau oherwydd nad oedd golau'n treiddio drwy'r gymysgedd. Roedd yr amser cyweirio ar gyfer y gymysgedd oddeutu pedair wythnos. .

Roedd y rysât traddodiadol a ddefnyddiwyd gennym yn ymddangos yn iawn tan i'r gwêr gael ei ychwanegu, a oedd yn tueddu i wneud y gymysgedd yn fwy di-draidd. Roedd yn ymddangos bod y gwêr yn atal golau yn hytrach na gadael iddo gael ei drosglwyddo. Felly gwnaed samplau heb y gwêr, ac o ganlyniad cyweiriodd pob cymysgedd yn llwyddiannus a rhoi gwahanol rad-dau o dryloywder yn dibynnu ar y cryfder. (Roedd 'difrodi' rysât yn y fath fodd yn ffactor cyffredin mewn gweithdai ac yn helpu i ddiogelu

proses neu wybodaeth mewn masnach neu urdd.) Roedd yn rhaid i'r gymysgedd gael ei roi'n boeth ar y lliain ar ôl ei ymestyn ac yna ei adael i oeri.

Effaith annisgwyl y fframiau ffenestri â lliain wedi'i ymestyn arnynt oedd bod lefel y golau tryledol oedd yn dod i mewn i'r adeiladau yn cynyddu yn hytrach na gostwng yn ôl y disgwyl. Dangoswyd hyn drwy gymryd darlleniadau lwcs digidol mewn gwa-hanol fannau yn yr ystafell cyn ac ar ôl gosod y fframiau. Mae'r darlleniadau hyn yn amlygu mantais i'r math hwn o orchudd ffenestr oedd wedi mynd yn angof – sef gwell safon o olau naturiol ar adeg dywyllaf y flwyddyn. Defnyddir gwahanol ddwyseddau o resin ar wahanol ffenestri er mwyn cynnig dealltwriaeth eang o effaith y gymysgedd ar lefelau golau a gwydnwch.

Yn sgil cais gan staff blaen y tŷ, mae'r gorchuddion ffenestri fel hyn wedi cael eu gosod yn Ffermdy Cilewent, a'r gobaith yw eu gosod ar drydydd adeilad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. O safbwynt dehongli, mae'r gorchuddion ffenestri wedi helpu i ddychwelyd y ddau ffermdy i gyflwr tebycach i'w cyflwr pan oedd pobl yn byw ynddynt, a helpu hefyd i ofalu'n well am y casgliadau a gaiff eu harddangos ynddynt.

Mae tystiolaeth o hynafiaeth y broses o amddiffyn rhag y tywydd i'w gweld mewn iaith hyd yn oed, gyda'r gair pane yn Saesneg yn tarddu o'r gair Lladin *pannus*, sy'n golygu 'brethyn wedi'i ymestyn'.

Yn fwy diweddar, mae yna lythyrau a chofnodion gan ymsefydlwyr ym mhen pellaf gorllewin America yn crybwyll defnyddio gorchuddion lliain a resin ar eu ffenestri cyn i wydr fod ar gael, a ddaeth yn ddiweddarach gyda sefydlu'r rheilffyrdd.



## Lleisiau'r Vulcan – Ffilmio Hanes Llafar

Fflur Gwynn, Uwch Guradur, Bywyd Diwylliannol

Mae llawer o'n curaduron wedi bod yn teithio ar hyd a lled Cymru'n cyd-gynhyrchu deunydd clyweledol ar gyfer yr orielau newydd yn Sain Ffagan.



Rhona a Mel Rees, landlordiaid y dafarn rhwng 1983 ac 1985

Yn ddiweddar, dechreuodd fy nghydweithiwr Dafydd Wiliam a minnau weithio ar dasg newydd a chyffrous, y tro hwn ychydig yn nes at adref, dafliaid carreg i ffwrdd yn Nhremorfa.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar dafarn y Vulcan. Byddwn yn ceisio cofnodi hanes llafar gan gyn gwsmeriaid a landlordiaid yr hen dafarn yn Adamsdown, gan gofnodi a ffilmio eu profiadau a'u hatgofion. Bydd y cyfweiliadau'n cael eu golygu a'u troi'n ffilm fer, fydd yn cael ei dangos yn un o'r orielau newydd. Ond y gobaith hefyd yw y bydd yr atgofion hyn yn rhoi darlun cliriach i ni fel curaduron o fywyd yn y Vulcan, ei diwylliant a'i chymuned.

Y bobl gyntaf i ni eu cyfweld oedd Rhona a Mel Rees, landlordiaid y dafarn rhwng 1983 ac 1985. O'r cychwyn cyntaf, roedd yn amlwg eu bod yn hynod hoff o'r dafarn a'i

chwsmeriaid, a'u bod wedi mwynhau eu hamser yno yn fawr iawn. Roeddynt yn disgrifio'r dafarn fel eu hystafell fyw, gan ddefnyddio geiriau fel clyd, cyfeillgar a hwyliog yn gyson. Roedd ganddynt ddigon o straeon doniol a difyr i'w hadrodd am y dafarn, ond fe wnaethant grybwyll ambell thema ddyfnach, megis magu teulu mewn tafarn ac ochr economaidd pethau a dirywiad y fasnach. At ei gilydd roedd y cyfweiliad yn agoriad llygad, ac rydym wedi dysgu llawer am eu bywydau bob dydd fel landlordiaid y Vulcan yn y 1980au.

Uchafbwynt y cyfweiliad i mi oedd stori am dynnu coes Mel ar ei ben-blwydd yn hanner cant oed pan ddaeth *kiss-o-gram* i'r Vulcan, ond wna i ddim dweud gormod nawr!

Os oes gennych chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod stori neu wrthrych sy'n gysylltiedig â'r Vulcan, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych

#MakingHistory #CreuHanes








Casglu diatomau mewn  
nant yn Nwyrain  
Falkland.



Pwll yn Nwyrain  
Falkland a rhywogaeth  
diatom o'r genws  
Pinnularia.



Pwll yn Nwyrain  
Falkland a rhywogaeth  
diatom o'r genws  
Surirella.



Thonak Tsho, Dyffryn  
Gokyo Valley, Parc  
Cenedlaethol Everest,  
Nepal, a rhywogaeth di-  
atom newydd yn y  
genws *Achnanthis*  
yr ydym yn ei ddisgrifio  
ar gyfer cyhoeddiad  
newydd.

## Ymchwil Rhyngwladol

### Diatomau – astudiaeth o algâu microsgopig i fonitro newid yn ein hamgylchedd

Ingrid Jüttner, Prif Guradur, Botaneg,  
Adran Gwyddorau Naturiol

Algâu microsgopig yw diatomau gyda chellfur wedi'i wneud o silica sy'n tyfu mewn cynefinoedd dŵr croyw a morol. Maen nhw'n sensitif i lawer o ffactorau amgylcheddol gan gynnwys llygredd a thymheredd ac maen nhw'n arbennig o ddefnyddiol ar gyfer asesu ansawdd dŵr..

Ers 23 o flynyddoedd a mwy, rwyf wedi astudio bioamrywiaeth yr organebau hyn yn yr Himalaya, gan gasglu dros 1,000 o samplau yno - casgliad sydd yn Amgueddfa Cymru erbyn hyn. Daeth y samplau o gynefinoedd amrywiol mewn afonydd, llynnoedd, pyllau a ffynhonnau amrywiol; o iseldiroedd isdrofannol i dwndra alpaidd mewn mynyddoedd ar uchder o hyd at 4,840 metr. Roedd rhywfaint o'r ymchwil yn rhan o broiect ar y cyd gyda Phrifysgol Caerdydd a'r Ganolfan Ecolog a Hydroleg, a chafodd ei ariannu gan Lywodraeth y DU fel rhan o'u Menter Darwin. Roedd projectau eraill yn rhan o Gymrodoriaeth Marie Curie yr UE yn yr Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain, a chynhaliwyd rhai ohonynt mewn cydweithrediad â Phrifysgol Kathmandu, wedi'u hariannu er enghraifft gan y Gymdeithas Ecologol Brydeinig a Chronfa Bywyd Gwyllt y Byd (WWF). Mae'r rhain wedi cynnwys astudiaeth o lynnoedd uchel ym Mharc Cenedlaethol Everest, ac mae astudiaeth newydd yn yr arfaeth ar gyfer 2016 ar Lyn Rara, y llyn mwyaf yn Himalaya Nepal a gwlypdir 'Ramsar' a ddiogelir ac a gydnabyddir yn rhyngwladol.

O ganlyniad i'r gwaith hwn mae deunaw rhywogaeth newydd ac un genws newydd wedi cael eu disgrifio, a nifer o genera pwysig yn Himalaya

Nepal wedi'u diwygio (*Achnanthis*, *cymbelloid* genera, *Gomphonema*, *Odontidium*). Mae fy ngwaith wedi helpu gyda'r asesiad o ansawdd y dŵr mewn ardaloedd poblog iawn fel Dyffryn Kathmandu ac effeithiau newidiadau mewn defnydd tir ar gynefinoedd dŵr croyw. Mae dau ddarlithydd yn nwy brifysgol Kathmandu wedi cwblhau eu graddau PhD ar sail astudiaethau o lynnoedd a phyllau yn Nepal.

Mae'r gydnabyddiaeth ryngwladol i'm gwaith yn Amgueddfa Cymru ar ddiatomau Himalaidd wedi fy arwain at fod yn rhan o nifer o broiectau eraill o fri. Yn nes at adref, dyfarnwyd nifer o gontractau i mi yn edrych ar ddiatomau ac ansawdd dŵr ar gyfer Sefydliad Gwy ac Wysg, ac ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a'r Alban. Rwyf yn cael fy ariannu gan Gymdeithas Phycologol Prydain (y sefydliad Ewropeaidd mwyaf sy'n ymdrin ag algâu) i gydlynu Flora Diatom Prydain ac Iwerddon, canllaw adnabod ar y we a fydd yn adnodd diffiniol ar gyfer astudiaeth forffolegol o'r organebau hyn. Yn fwyaf diweddar rwyf wedi cydweithio â'r Athro Bart Van de Vijver (Botanic Garden Meise, Gwlad Belg) a Dr Roger Flower (Coleg Prifysgol Llundain) i gydweithio ar ymchwiliad o ddiatomau Ynysoedd Falkland. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer y project hwnnw (a ariennir yn rhannol drwy Ysgoloriaeth Shackleton) ym mis Tachwedd 2015 ac mae wedi ychwanegu yn sylweddol at gasgliad diatomau Amgueddfa Cymru. Roedd yn cynnwys casglu sbesimenau byw hefyd a fydd yn ategu astudiaeth foleciwlaidd o'r genws *Pinnularia* gan fyfyrwr PhD dan yr Athro Van de Vijver a'r Athro K. Sabbe (Prifysgol Ghent, Gwlad Belg).

Mae fy nghyhoeddiadau wedi'u rhestru yn:  
[https://www.researchgate.net/profile/Ingrid\\_Juettner/publications](https://www.researchgate.net/profile/Ingrid_Juettner/publications)

## Partneriaethau

### Tir Cors: Brymbo 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl

Caroline Buttler, Pennaeth Palaeontoleg

Ar 28 Ionawr 2016 agorwyd arddangosfa newydd, *Tir Cors: Brymbo 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl*, yn Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam gan Ken Skates, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae'n adrodd hanes Coedwig Ffosilau Brymbo, ger Wrecsam, a chafodd ei datblygu ar y cyd gan staff o'r Adran Gwyddorau Naturiol yn Amgueddfa Cymru ac Amgueddfa Wrecsam, gyda help gan Grŵp Treftadaeth Brymbo a Brymbo Developments Ltd.



Mae'r arddangosfa'n dangos amser yn y Cyfnod Carbonifferaidd, pan oedd Brymbo'n gors mewn delta afon rhywle ger y cyhydedd. Roedd pryfed enfawr yn hofran a hedfan ymhlith y planhigion anferthol oedd yn tyfu mewn amgylchedd drofannol doreithiog. O bryd i'w gilydd byddai'r afon fwdlyd yn gorlifo'i glannau, gan beri llifogydd ar y tir cyfagos a chladdu planhigion yn y fan a'r lle.


Darganfuwyd Coedwig Ffosilau Brymbo

yn 2004 yn ystod gwaith adfer ar safle hen Waith Dur Brymbo. Canfuwyd bonion 'coed' mawr a *Calamias* anferth (marchrawn), y rhan fwyaf yn y mannau lle'r oeddynt wedi tyfu. Canfuwyd ffosilau planhigion eraill hefyd oedd wedi'u cadw mewn cyflwr hardd gan gynnwys deiliach tebyg i redyn, coesynnau, conau, hadau a megasborau. Casglwyd yr holl ffosilau gan y grŵp lleol, Grŵp Treftadaeth Brymbo.


Sylweddolwyd pa mor bwysig oedd geogadwraeth a diddordeb gwyddonol y safle yn fuan iawn, a chafodd Coedwig Ffosilau Brymbo ei chlustnodi fel SoD-dGA (Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig). Mae'r sbesimenau llai, y gellid eu harddangos neu eu defnyddio at ddibenion ymchwil, yn cael eu storio dros dro mewn adeiladau domestig – a phrin fod hynny'n ateb delfrydol! Roedd yn rhaid cael gafael ar leoliad parhaol ar gyfer y sbesimenau hyn, gan gynnwys rhywogaethau newydd posibl, yn ogystal â detholiad cynrychioliadol o ffosilau o'r safle. Yn ddelfrydol, byddai'r lleoliad hwnnw wedi bod yng ngogledd-ddwyrain Cymru ond doedd yr un sefydliad yno â'r lle na'r profiad i ymdopi â thasg o'r fath. Roedd y cyfleusterau a'r arbenigedd gan Amgueddfa Cymru, ac ar ôl trafodaethau gofalus lluniwyd memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhyngom ni, Grŵp Treftadaeth Brymbo a Brymbo Developments Limited, sef perchnogion y safle, a pherchnogion y ffosilau o'r herwydd. Y canlyniad oedd fframwaith ar gyfer cydweithredu rhwng y tri grŵp, gan ein galluogi i weithio mewn partneriaeth i gadw sbesimenau i bobl eu mwynhau, ar gyfer ymchwil ac at ddibenion addysgol cyffredinol yn y dyfodol.

Yn 2013 llofnodwyd trosglwyddiad teitl y ffosilau dan sylw a daethant yn eiddo i Amgueddfa Cymru. Gan mwyaf, mae'r gwaith o'u hadnabod, hyd at lefel rhywogaethau, wedi'i wneud gan Chris Cleal, Pennaeth Botaneg a Barry Thomas, Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus.





Seren yr arddangosfa yw ffosil *Stigmaria* 2.25 metr o uchder – “Big Stig” – gyda gwreiddiau o 3.5 metr o led, a gafodd ei achub mewn darnau o'r wythien lo o dan safle'r hen waith dur. Mae'r ffosil enfawr wedi cael ei warchod yn ofalus a'i ail-adeiladu ar gyfer yr arddangosfa. Roedd gofyn ystyried pob math o faterion cadwraeth, logisteg, ac iechyd a diogelwch oherwydd ei faint a'i bwysau, sef tua thunnell.



Yn y dyfodol, mae Grŵp Treftadaeth Brymbo'n gobeithio cloddio ardal y ffosiliau i ddadorchuddio planhigion a chalamitau sy'n dal i sefyll yn y man lle gwnaethant dyfu, gyda llwybrau pren diogel ar gyfer mynediad i ymwelwyr, a hynny i gyd y tu mewn i un strwythur. Mae swyddog treftadaeth, a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, wedi'i benodi i ddatblygu a dod o hyd i gyfleoedd ariannu ar gyfer y grŵp law yn llaw â sefydliadau partner a chymunedau lleol



**COFIWCH** – archebwch eich lle ar gyfer ein noson o haf yn Sain Ffagan ar 8 Mehefin. Dewch â'ch ffrindiau a gwesteion i gael golwg arbennig ar Lys Llywelyn yng nghwmni staff a churaduron, a dysgu am fywyd mewn llys canoloesol.

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw un o'r erthyglau a gyhoeddwyd, ein rhaglen ddigwyddiadau, project codi arian Sain Ffagan neu unrhyw newyddion o'r rhifyn hwn, cysylltwch â:

Sian Russ  
Adran Codi Arian a Datblygu  
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd  
Parc Cathays  
Caerdydd CF10 3NP

Ffôn: (029) 2057 3182  
E-bost:  
sian.russ@amgueddfacymru.ac.uk  
www.amgueddfacymru.ac.uk



# Calendr Digwyddiadau 2016

## Lleoliad/Dyddiad

## Manylion

AG Caerdydd  
Iau 28 Ebrill  
6.00pm – 8.00pm

### Uffern Rhyfel – Brwydr Coed Mametz a Chelfyddyd

#### Dangosiad Arbennig a lansiad swyddogol ar gyfer Pwysigion, Noddwyr a gwsteion.

This exhibition is a major highlight of the WW1 commemoration programme. It will show works from the museums own collections, including book plates by David Jones for his work In Parenthesis and works on loan including a painting originally in Cardiff Infirmary and now at Sandhurst. This prestigious event will feature a performance from In Parenthesis, the new WNO opera that opens in May at Wales Millennium Centre.

Canolfan y Mileniwm Cymru  
Sadwrn 7 Mai  
2.30pm – 4.30pm  
(i'w gadarnhau)

### Digwyddiad i'r Noddwyr yng Nghanolfan y Mileniwm Cymru gan Amgueddfa Cymru ac Opera Cenedlaethol Cymru

Cyfle i 50 o Noddwyr fynychu ymarfer gwisg In Parenthesis.

**NIFER CYFYNGEDIG** – archebwch mewn da bryd drwy ffonio (029) 2057 3182 neu e-bostio [noddwyr@amgueddfacymru.ac.uk](mailto:noddwyr@amgueddfacymru.ac.uk)

Sain Ffagan  
Mercher 8 Mehefin  
o 6.00pm

### Noddwyr a Chefnogwyr – Llys Llywelyn gyda Dr Steve Burrow Pennaeth Eiddo Hanesyddol a Janet Wilding Pennaeth yr Uned Adeiladau Hanesyddol

Cyfle i weld adeilad gorffenedig Bryn Eryr yn Sain Ffagan – elfen gyntaf y gwaith o ail-greu un o Lysoedd Llywelyn Fawr. Bydd y noson yn gyfle i lansi Apêl Noddwyr Llys Llywelyn, sef rhestr siopa o eitemau wedi'u comisiynu i ddodrefnu'r neuadd ganoloesol. Digwyddiad ar gyfer Noddwyr, cyfranwyr eraill a chefnogwyr newydd i Sain Ffagan.

AG Caerdydd  
Sadwrn 18 Mehefin  
9.00am – 10.00am

### Lansiad arddangosfa Mwydod, Hanes Natur 18 Mehefin – Ionawr 2017

#### Dangosiad arbennig i'r teulu cyfan – lansiad bore i Bwysigion, teuluoedd a gwsteion.

Arddangosfa'n dangos a datgelu mwy am y myrdd o fwydod sydd yn y casgliadau Hanes Natur, a sut mae ein hymchwyl yn datgelu eu nodweddion unigryw a'u heffaith ar y byd.

AG Caerdydd  
Sadwrn 16 Gorffennaf  
9.00am – 10.00am

### Lansiad arddangosfa *Quentin Blake: Inside Stories* 16 Gorffennaf – 20 Tachwedd

Arddangosfa o waith Quentin Blake ar gyfer llyfrau awduron enwog megis Roald Dahl a David Walliams. .

#### Dangosiad arbennig i'r teulu cyfan – lansiad bore i bwysigion, teuluoedd a gwsteion.

AG Caerdydd  
Wednesday 21  
September  
6.00pm – 8.00pm

### Dangosiad arbennig a Sgwrs ar Fâs Burges

Gydag Andrew Renton, y Ceidwad Celf.

Fâs a gaffaelwyd yn ddiweddar o Gastell Caerdydd.

Mae'n bosib y bydd Matthew Williams (Curador Castell Caerdydd) yno hefyd.

Ar gyfer Noddwyr a gwsteion gwadd. Cyfle da i gyflwyno noddwyr newydd posibl.

AG Caerdydd  
Iau 8 Rhagfyr  
o 6.30pm

### Digwyddiad Nadolig i Noddwyr a Chefnogwyr

Cinio blynyddol y Noddwyr a gwsteion.